



## Bwydo'r Di-gartref a'r anghenus yng Nghaerdydd

Yn ystod y flwyddyn mae'r capel yn cyfrannu at rota prynhawn dydd Sul i fwydo'r anghenus yn y Tabernacl, ochr draw i Ganolfan Siopa Dewi Sant 2. Mae angen enwau newydd arnom ni ar y rota. Byddai cyfrannu jyst un waith mewn blwyddyn yn help mawr. Aeth rhai aelodau newydd yn ystod mis Awst ar ein rhan, ac maen nhw'n dweud i'r profiad fod yn un arbennig iawn iddyn nhw. Os fyddech yn barod i gynnig sesiwn, plis ebostiwch Margaret Calvert ar margaretcalvert@mybtinternet.com

## Y Suliau Nesaf

**Medi 25** - Geraint Rees gyda Wyn Jones yn llywyddu ac yn croesawu Wil Morus Jones a Dr Jishu o elusen BanglaCymru
**Hydref 2** - Gwilym ac Eleri Huws a chriw Meisgyn
**Hydref 9** - Eirian gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu
**Hydref 16** - Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal y Twmiaid a'r Ysgol Sul
**Hydref 23** - Keith Rowlands gyda Bethan Guilfoyle yn llywyddu.
Taflen a sgrin yng ngofal Keith

## HELPU FFOADURIAID – Dillad ac Esgidiau

Diolch i bawb! Erbyn hyn mae tua 100 o sachau yma i'w didoli yn ystod yr wythnos nesaf. Byddan nhw'n mynd ar lori'n fuan iawn. Os hoffech, mae croeso i chi gyfrannu'n ariannol, ac fe allwn ni brynu'r hyn sydd ei angen. Diolch yn fawr iawn i Carys Davies ac Ann Dwynwen Davies am drefnu'r cyfan. Os am gysylltu:

ann.pentyrch@btinternet.com

## CAIS NEWYDD: TEULUOEDD MEWN ARGYFWNG

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol angen dillad gwely dwbwl ac offer cegin ar gyfer teuluoedd lleol. Os gallwch chi gyfrannu, mynnwch air â John Llewellyn Thomas. Diolch yn fawr

## Suliau'r Flwyddyn Nesaf

Hoffech chi gyfrannu at neges bore Sul yn ystod 2017? Cysylltwch gyda Geraint Rees ar geraintrees@hotmail.com

## GOHIRIO DARLITH
## YR ESGOB JOHN SPONG

Daeth y newyddion trist ddydd Sul diwethaf i'r Esgob ddioddef gwaedlif ar yr ymennydd fel yr oedd yn paratoi i annerch torf fawr o fyfyrwyr yn America. O ganlyniad, canslwyd ei daith i Ewrop. Anfonwyd ein dymuniadau da iddo o Gymru.

## Elusennau'r Capel Eleni

Mae cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pump o elusennau lleol:


1.Gofalwyr Ifanc,

2. Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl, Aberdâr,

3. Ysgol Tŷ Coch,

4. Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru Y Samariaid, ac

5. Eye to Eye Counselling Service, Rhondda Cynon Taf.




**MERCHED Y TABERNACL**

**Dydd Mercher, Medi 28ain**

Te pnawn yn y Plasty (Mansion House) Caerdydd,
a thaith dywys o amgylch y tŷ moethus hwn
(£15 ar y diwrnod)
Cwrdd yno – Heol Richmond CF24 3UN
2:00p.m. am ddwyawr



**MERCHED Y WAWR**

Cangen y Garth

**NOSON AGORIADOL**

**Nos Fercher, Medi'r 21ain am 8:00 p.m.**

Canolfan y Tabernacl, Efail Isaf

**CROESO CYNNES**

**CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT A'R CYLCH**

**Y Ganolfan, Efail Isaf**

**Nos Wener, Medi 30ain am 7.30 p.m.**

**DELWYN SIÔN: SGWRS A CHÂN**

***Croeso cynnes i Bawb***

# Capel y Tabernacl

Rhif y Cwmni: 06349041 Rhif Elusen: 1122584

**Rheolwr Safle**

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser
yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.
Disgwylir i'r sawl a benodir ddechrau yn Ionawr 2017.
Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk/01443 206833)
Wendy Reynolds (w.reynolds33@btinternet.com/ 01443 207392)
Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk/01443 225205)

**Dyddiad Cau: Dydd Gwener 23ain Medi 2016**

## BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod mis Medi o'r Bwrdd nos Fawrth nesaf, Medi 20fed. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu unrhyw fater i'w godi gyda'r Bwrdd, yna cysylltwch â Gwilym Huws, yr Ysgrifennydd:
(gehpengwern@yahoo.co.uk)
01443 2252015
erbyn nos Lun, 19 Medi os yn bosib.

Christianity has presented itself as a system of beliefs. That system of beliefs has supported a wide range of unintended consequences - from colonialism to environmental destruction, from subordination of women to stigmatization of LGBT people. What would it mean for Christians to rediscover their faith - not as a system of beliefs, but as a just and generous way of life, rooted in contemplation and expressed in action, that makes amends for its mistakes, and is dedicated creating a beloved community for all? (Brian McLaren)

## Brian McLaren yng Nghaerdydd

Cyfeirir yn aml at Brian McLaren fel un o arweinwyr Cristnogol mwyaf dylanwadol y Gorllewin. Bydd yn ymweld â Chaerdydd ar Hydref 10fed eleni, pan fydd yn annerch yn yr Eglwys Ddiwygiedig  i sôn am ei lyfr newydd:

''The Great Spiritual Migration:
Re-imagining a Faith that will Save Us'




Cewch fanylion llawn y daith YMA neu ar wefan PCN
www.pcnbritain.org.uk/news

Mae'r tocynnau ar gael nawr.










**Diolch i Jen Macdonald**

Mae'r capel wedi ei harddu ar y tu allan gan flodau sy'n cael eu hadnewyddu yn gwbl ddi-ffwdan gan Jen McDonald. Diolch iddi am wneud y gwaith hwn. Mae pobl y pentref yn aml yn gwneud sylwadau am y ffaith fod blodau yn harddu'r lle bob wythnos o'r flwyddyn. Diolch.

